

*Rhaglen Genedlaethol  
Hyfforddiant Mewn-swydd  
y Gymraeg*

*Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg  
Cyfnod Allweddol 2*

***Codi Safonau Llythrennedd***  
*Datblygu gwaith trafod mewn grŵp*

*Y Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol*

*Rhaglen Genedlaethol  
Hyfforddiant Mewn-swydd  
y Gymraeg*

*Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg  
Cyfnod Allweddol 2*

*Codi Safonau Llythrennedd  
Datblygu gwaith trafod mewn grŵp*

Argraffiad cyntaf Chwefror 2000

© Uned Iaith Genedlaethol Cymru

Cyhoeddwyd gan Uned Iaith Genedlaethol Cymru CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX

Mae Uned Iaith Genedlaethol Cymru yn rhan o WJEC/CBAC Cyf.,  
cwmni a gyfyngir gan warant ac a reolir gan awdurdod unedol Cymru.

ISBN 1 86085 462 1

## CYDNABYDDIAETH

Lluniwyd y pecyn hwn gan Weithgor Cenedlaethol y Cydlynwyr Cynradd Cymraeg, Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg:

Caroline Davies  
Sarah Davies  
Eirlys Eckley  
Glenys Evans  
Delyth Eynon  
Catrin Griffiths  
Yan James  
Eirwen Jones  
Glenda Jones  
Len Jones  
Richard Roberts  
Mair Treharne

Diolchir i Wasg Gomer am ei ganiatâd i atgynhyrchu rhannau o Parti'r Mochyn Bach ac i wasg Gwynedd am ei ganiatâd i atgynhyrchu rhannau o Dyfal Donc.

Dymuna Uned Iaith Genedlaethol Cymru CBAC gydnabod cefnogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau addysg Cymru.

## CYFLWYNIAD

Mae cryn bwyslais yn Rhaglenni Astudio Cwricwlwm 2000 ar waith trafod mewn grŵp.

Bwriad y pecyn hyfforddi hwn yw enghreifftio arfer dda ym maes addysgu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i drafod mewn grwpiau.

Cynigir canllawiau cyffredinol i gynorthwyo athrawon gynnal gwaith grŵp yn y dosbarth ynghyd ag enghreifftiau o eirfa ac ymadroddion buddiol i'w cyflwyno i ddisgyblion.

Rhan annatod o addysgu disgyblion i drafod mewn grŵp yw asesu ac mae Astudiaeth 3 yn cynnig arweiniad yng nghyd-destun Cwricwlwm 2000.


Mae Astudiaethau 4 a 5 yn cynnig gweithgareddau y gellid eu defnyddio gyda disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 tra bo Astudiaethau 6 a 7 wedi'u hanelu at ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6.

Mae gweithgareddau ymarferol ar gyfer athrawon sy'n mynychu cyrsiau HMS ynghlwm wrth bob astudiaeth. Gellir defnyddio'r pecyn hwn mewn sesiynau hyfforddi sirol, clwstwr, ysgol gyfan neu ar lefel annibynnol.

**Richard Roberts**  
**Hyfforddwr Ymgynghorol**

## CYNNWYS

	<b>Tudalen</b>
<b>Astudiaeth 1:</b> Addysgu disgyblion i ymgymryd â gwaith trafod mewn grŵp	7
<b>Astudiaeth 2:</b> Paratoi ieithyddol wrth ymgymryd â gwaith trafod mewn grŵp	11
<b>Astudiaeth 3:</b> Asesu gwaith trafod mewn grŵp	12
<b>Astudiaeth 4:</b> Trafod llyfr gyda disgyblion Blwyddyn 3	19
<b>Astudiaeth 5:</b> Trafod llyfr	27
<b>Astudiaeth 6:</b> Trafod rhaglen deledu/ffilm	33
<b>Astudiaeth 7:</b> Trafod pwnc llosg	37



# ASTUDIAETH 1

## Addysgu disgyblion i ymgymryd â gwaith trafod mewn grŵp

Cytunir bod angen paratoi trylwyr ar ddisgyblion cyn iddynt fynd i'r afael â gwaith trafod mewn grŵp. Mae'n bwysig datblygu'r medrau a nodir yn yr Astudiaeth hon yn barhaus trwy gydol Cyfnod Allweddol 2.

Addaswyd yr Astudiaeth hon o *O Sgwrsio i Draffod* (Evans E J, CBAC 1994)

### 1. Sgiliau trafod y gellir eu datblygu yng Nghyfnod Allweddol 2

#### 1.1 Datblygu sgiliau a ddysgwyd eisoes

- bod mewn grŵp
- pwysigrwydd gwranddo ar ei gilydd
- siarad yn eu tro
- peidio â thorri ar draws rhywun arall sy'n siarad

#### 1.2 Meithrin ymwybyddiaeth o gwrteisi er mwyn sefydlu perthynas dda mewn grŵp

- canolbwyntio ar gyfraniadau'i gilydd
- dangos diddordeb
- peidio â thynnu sylw disgyblion eraill trwy:
  - edrych i gyfeiriad arall
  - chwarae ag offer ar y bwrdd
- rhoi cyfle i bawb siarad
- canmol awgrym gan aelod arall
- anghytuno mewn ffordd gwrtais
  - peidio â gweiddi na gwylltio
- bod yn barod i newid meddwl

#### 1.3 Sgiliau cynnal trafodaeth

- peidio â bodloni ar atebion un gair i gwestiwn
- bod yn barod i ehangu ymateb trwy:
  - roi manylion ychwanegol
  - roi eglurhad, rhesymau, enghreifftiau
- cynnig sylwadau a syniadau pellach trwy:
  - holi barn aelodau eraill
  - ofyn am ragor o wybodaeth
  - ofyn am eglurhad
- disgrifio profiad personol
- cytuno/anghytuno â sylwadau
- peidio â siarad am bethau amherthnasol
- pwysleisio pwynt
- helpu'r grŵp ddod i benderfyniad ac adrodd yn ôl



## 1.4 Datblygu sgiliau unigolion o fewn grŵp

### Arweinyddion

- llywio trafodaeth trwy:
  - sicrhau bod pawb yn cymryd rhan
  - sicrhau bod y grŵp yn cyflawni tasg
  - holi cwestiynau
  - adrodd yn ôl

### Unigolion

- ysgrifennu nodiadau o bryd i'w gilydd
- adrodd yn ôl

## 2. Trefniadaeth ddosbarth

### 2.1 Trafodaeth ddosbarth

- athro/athrawes yn gadeirydd - modelu'r rôl
- paratoi manwl - disgyblion i ystyried rhai pynciau ymlaen llaw
- gwranddo'n amyneddgar ar y disgyblion
- pawb yn cael cyfle i gyfrannu
- ymatal rhag egluro neu ailddweud pwyntiau a wna disgyblion

### 2.2 Trefnu grwpiau/deuoedd

- sicrhau amrywiaeth grwpiau - rhoi cyfle i ddisgyblion ddewis grŵp ar dro
- dewis arweinydd/cadeirydd - aelodau grŵp i ddewis arweinydd
- mynd o amgylch y grwpiau ac ymuno ag ambell un
- targedu un grŵp pan fo hynny'n briodol
- sicrhau bod lefel sŵn siarad yn dderbyniol
- dangos diddordeb ym marn y disgyblion
- annog disgyblion swil

## 3. Meithrin ymwybyddiaeth o sgiliau trafod

- llunio rheolau eu hunain
- adolygu'r hyn a wnaethant, e.e.
  - gwranddo ar eu perfformiad ar dâp
  - rhoi sylwadau ar yr hyn a ddysgwyd
  - adrodd yn ôl
  - rhannu profiadau/cymharu syniadau â grwpiau eraill.

## 4. Cynllunio

- creu cyfleoedd i ddisgyblion rannu profiadau gyda'u hathrawon a chyda'i gilydd yn gyson
- rhagweld posibilïadau trafod wrth ymwneud â phrosiectau a phynciau ar draws y cwricwlwm

## 5. Ymwybyddiaeth o natur tasgau

- Dylid sicrhau'r canlynol:
  - amrywiaeth - gweithgareddau sy'n ysgogiad i drafodaeth naturiol ddatblygu ynghyd â thasgau trafod penodol
  - perthnasedd - apelio at oed a gallu gwahaniaethu tasgau pan fo'n briodol
  - cwestiynau agored gyda phynciau llosg
  - symbyliadau amrywiol - darnau darllen, llyfrau, fideo, tâp, arteffactau, lluniau, cyfrifiadur, ymweliadau etc.
  - gweinyddu tasg - canllawiau pendant, disgwyliadau, amseru

## 6. Defnyddio cynorthwyon

- llunio canllawiau i'r dasg
- paratoi cwestiynau strwythuredig
- llunio awgrymiadau ar gyfer llywio gwaith grŵp ac adrodd yn ôl
- llunio cardiau'n cynnwys yr eitemau iaith priodol i'w defnyddio

## 7. Tactegau ar gyfer sicrhau bod y dasg yn cael ei chyflawni - ac yn Gymraeg!

- mynd o amgylch y dosbarth yn gyson gan ymuno â grŵp yn ddjarwybod
- aelodau grŵp yn recordio'u trafodaeth â recordydd tâp neu gamera fideo
- annog y grŵp i ysgrifennu nodiadau ar dro
- adrodd yn ôl
- rôl cloriannu gan athrawon
- hunanasesu - aelodau'n asesu eraill yn eu grŵp weithiau

## 8. Rheolau gwaith grŵp

- gwrandao ar ein gilydd bob amser
- cymryd tro i ddweud rhywbeth
- gadael i ddisgybl arall orffen siarad
- peidio tynnu sylw eraill trwy chwarae â phethau ar y bwrdd
- bod yn barod i ofyn cwestiwn
- peidio gweiddi
- dweud wrth rywun ei fod wedi dweud rhywbeth da
- rhannu syniadau
- dewis cadeirydd i'r grŵp

## 9. Enghraifft o hunanasesiad

Wnes i ...

wrando ar eraill?  
gymryd rhan yn y drafodaeth?  
ofyn cwestiynau?  
ateb cwestiynau?  
gadeirio'r grŵp?  
gynnig syniadau?  
ysgrifennu nodiadau?  
adrodd yn ôl?  
ddysgu rhywbeth newydd?

## ASTUDIAETH 2

### Paratoi ieithyddol wrth ymgymryd â gwaith trafod mewn grŵp

Yn amlwg, mae'r eitemau iaith sydd eu hangen yn amrywio yn ôl natur y pwnc trafod. Fodd bynnag, mae rhai eitemau iaith sy'n gyffredin wrth i bobl fynegi barn a chynnig rhesymau ac ati. Dyma fentro cynnig rhai cyffredin iawn eu defnydd gan gydnabod bod llawer iawn mwy ar waith o ddydd i ddydd yn ein hysgolion. Awgrymir darparu'r eitemau iaith hyn ar ffurf cardiau siarad; dylid eu llungopïo a'u lamineiddio cyn eu cyflwyno i grwpiau trafod mewn dosbarthiadau. Wrth i blant ddefnyddio'r cardiau siarad hyn, buan iawn y dônt yn gyfarwydd â hwy a byddant yn gallu defnyddio'r iaith angenrheidiol heb gynhaliath y cardiau.

#### Nodyn i'r hyfforddwr/aig

Gofynnwch i fynychwyr cyrsiau lunio rhestr/au ymadroddion trafod eu hunain yn gyntaf fel rhan o gwrs hyfforddi.

#### Ymadroddion i'w defnyddio wrth drafod mewn grŵp

Pwysleisir mai enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

Rydw i'n meddwl ...	Rydw i'n credu ...
Rydw i'n cytuno ...	Rydw i'n anghytuno ...
Rydw i'n teimlo ...	Rydw i'n credu mai/taw ...
Rhaid i mi ...	Yn gyntaf/ail/drydydd ...
O bosibl ...	Yn ogystal â ...
O safbwynt ...	Mae yna gyfeiriad at ...
Rydw i'n amau ...	Mae ... yn honni/dadlau/dweud
Pa dystiolaeth ...?	Yn ôl ...
Beth ydy dy farn di?	Yn fy marn i ...
Beth ydych chi'n feddwl o ...?	Ga i dorri ar draws?
Beth amdanat ti/amdanoch chi?	Rydyn ni/'n credu/'n meddwl/o'r farn

## ASTUDIAETH 3

### Asesu gwaith trafod mewn grŵp

Mae'r Astudiaeth hon yn cynnig arweiniad mewn asesu gwaith trafod mewn grŵp yng nghyd-destun Cwricwlwm 2000. Y mae cyfle pellach i ystyried asesu yn Astudiaethau 4-7 lle'r enghreifftir tasgau trafod i'w darparu i ddisgyblion.

Wrth benderfynu beth ddylid ei asesu, rhaid defnyddio Rhaglenni Astudio Cymraeg yn Cwricwlwm 2000. Isod, cynigir rhestr o'r elfennau yn Rhaglen Astudio Llafaredd y dylid eu hasesu. Pwysleisir bod cyfleoedd i ddatblygu ac asesu gwaith trafod mewn grŵp yng nghyd-destun Darllen ac Ysgrifennu hefyd.

#### 1. Llafaredd

##### 1.1 Ystod

Dylid addysgu'r disgyblion i:

- ymateb mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan ddatblygu syniadau, egluro a thrafod
- sgwrsio'n ymestynnol gyda chymheiriaid, athrawon ac oedolion eraill
- gyfrannu at drafodaeth ddosbarth a grŵp ar destunau penodol amrywiol

##### 1.2 Sgiliau

Dylid addysgu'r disgyblion i:

- ymateb yn briodol ac yn gwrtais i'r hyn a glywant gan:
  - wneud cyfraniadau perthnasol
  - gymryd eu tro mewn trafodaeth grŵp
  - adrodd yn ôl i'r dosbarth cyfan
- fynegi barn gan:
  - ddatblygu eu sylwadau
  - gynnig eglurhad, rhesymau a dadleuon
  - fod yn ymwybodol o gynulleidfa drwy ymateb yn briodol i sylwadau sy'n groes i'w barn
- gyfleu profiadau personol a dychmygus
- gyflwyno gwybodaeth drwy roi, derbyn a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau
- siarad yn hyderus a datblygu eu hymwybyddiaeth o gyfraniad ynganu, goslef ac ystum wrth gyfleu ystyr ar lafar
- ddeall bod gwahaniaeth rhwng siarad yn gymdeithasol a siarad mewn sefyllfaoedd ffurfiol

### 1.3 Datblygiad iaith

Dylid addysgu'r disgyblion i:

- ddatblygu eu defnydd o'r iaith lafar safonol drwy weithgareddau sy'n gofyn am ystod o batrymau a geirfa
- ddeall bod gwahaniaeth rhwng yr iaith lafar a'r iaith ysgrifenedig
- ddefnyddio ystod gynyddol o eiriau, ymadroddion a brawddegau yn gywir a bod yn ymwybodol o'u dewisiadau
- ddatblygu eu gwybodaeth o iaith er mwyn cadarnhau'r gystrawen Gymraeg fel eu bod yn:
  - defnyddio'r gystrawen Gymraeg
  - defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson ) yn gywir
  - negyddu brawddegau'n gywir
  - rhedeg arddodiad yn gywir
  - defnyddio'r arddodiad cywir ar ôl berfenw
  - treiglo'n briodol
  - ymwybodol o genedl enwau
  - gallu gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg
- ystyried cywirdeb eu hiaith wrth siarad ac osgoi defnyddio geiriau ac ymadroddion Saesneg diangen

## 2. Sut mae asesu gwaith trafod mewn grŵp?

Mae dogfen yr NOP (1991) yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio wrth fynd ati i asesu gwaith llafar disgyblion. Mae hefyd yn argymhell gosod tasgau trafod mewn grŵp yn gyson i hyrwyddo'r medrau angenrheidiol. Mae'n awgrymu canllawiau tebyg i'r isod.

### 2.1 Ystod y tasgau trafod

Darllenwch y Rhaglenni Astudio i sicrhau eich bod yn cynnig yr arlwy priodol i'r disgyblion gan gynnig amrywiaeth eang yn y mathau o dasgau trafod

### 2.2 Cyfansoddiad grwpiau

Ceir arweiniad yn Astudiaeth 1. Fodd bynnag, dylid sicrhau amrywiaeth yn y modd y ffurfir grwpiau. Awgrymir niferoedd o rhwng 3 a 5 mewn grŵp.

### 2.3 Trefniadaeth dosbarth

Ydy'r modd y mae'r dosbarth wedi ei drefnu yn hyrwyddo gwaith trafod mewn grŵp o safbwynt:

- cynhaliaeth i'r disgyblion o ran iaith a'r wybodaeth angenrheidiol y maent ei hangen
- rôl yr athro - yn cynnal, arsylwi etc.
- gweithio'n annibynnol, mewn grwpiau?

### 2.4 Amseru

Rhaid cynllunio hyn yn ofalus gan bennu amser penodol ar gyfer pob cam.

### 2.5 Cyfarpar/Adnoddau

- cardiau iaith i gynnal y drafodaeth
- deunydd cyfair e.e. taflenni gwybodaeth, llyfrau etc.
- deunydd ysgrifennu ar gyfer ysgrifennu nodiadau ac i baratoi adrodd yn ôl etc.
- recordydd casét neu gamera fideo - i gynnig adborth i grŵp ar ei waith neu wrth i ddisgyblion fynd ati i hunanasesu eu gwaith trafod

### 2.6 Cofnodi

I gofnodi gwaith trafod mewn grŵp yn effeithiol rhaid wrth gynllunio manwl e.e.

- sicrhau arsylwi gwaith trafod pob disgybl dros gyfnod o flwyddyn
- defnyddio camera fideo i gofnodi gwaith trafod
- datblygu rhaglen o hunanasesu (gweler enghraifft yn Astudiaeth 1, rhif 8 a tudalen 18
- llunio taflenni cofnodi hylaw - gweler enghraifft wedi'i chwblhau ar dudalen 16 ac un y gellir ei defnyddio fel templad ar dudalen 17 - tra'n cydnabod fod gan lawer o ysgolion eu dulliau eu hunain o gofnodi cyraeddiadau disgyblion.

### 2.7 Pennu lefel Cwricwlwm Cenedlaethol ar waith disgyblion

Mae'n bwysig i'r arweinydd cwricwlwm gynnull gweddill staff yr ysgol i drafod gwaith llafar disgyblion ac i ddehongli Disgrifiadau Lefel Cwricwlwm 2000. Mae'r grid ar y dudalen nesaf yn nodi cymalau allweddol o'r Disgrifiadau Lefel hyn ac efallai yn ei gwneud yn haws i'w trin na'r modd y maent wedi'u gosod yn y gorchymyn. Gellir gwneud yr un modd gyda Darllen ac Ysgrifennu.

## Targed Cyrhaeddiad 1: Llafaredd

LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4	LEFEL 5
<ul style="list-style-type: none"> <li>● siarad am faterion cyfarwydd fel unigolion ac mewn grwpiau</li> <li>● ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml</li> <li>● gyda chefnogaeth athrawon, cyfleu gwybodaeth syml, yn ymateb i symbyliadau ac yn cynnwys rhai manylion</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>● dechrau dangos hyder ... wrth sgwrsio am faterion sydd o fewn eu profiad a'u diddordeb</li> <li>● ar adegau, yn ymateb yn briodol ac yn cynnwys manylion addas</li> <li>● ceisio, deall a chyfleu gwybodaeth syml ac yn ymateb i ystod ehangach o symbyliadau</li> <li>● fel arfer, defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>● sgwrsio gyda pheth hyder mewn gwahanol gyd-destunau am brofiadau a digwyddiadau gan ddangos peth ymwybyddiaeth o ddilyniant ac olyniaeth</li> <li>● gwrando'n ofalus ar eraill, yn ymateb yn berthnasol iddynt ac yn dechrau gofyn cwestiynau priodol</li> <li>● dechrau addasu eu siarad yn ôl gofynion y gynulleidfa</li> <li>● mynegi barn yn syml ac yn siarad gyda pheth cywirdeb gan ynganu a goslefu'n briodol ac amrywio geirfa a chywair</li> <li>● cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn eglur gan amrywio brawddegau'n bwrpasol</li> <li>● dechrau sylweddoli bod amrywiaeth yn yr iaith a glywant o'u cwmpas</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>● sgwrsio'n hyderus mewn ystod o gyd-destunau</li> <li>● cyflwyno gwybodaeth, yn sôn am brofiadau, yn ymateb yn fanwl ac yn dangos ymwybyddiaeth o ddilyniant ac olyniaeth</li> <li>● mynegi barn yn glir ac yn dangos ymwybyddiaeth o ofynion cynulleidfa drwy ddechrau amrywio llais, goslef ac ystum</li> <li>● mewn trafodaeth, yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau sy'n berthnasol i gyfraniadau eraill</li> <li>● defnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol gyda mesur da o gywirdeb</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>● sgwrsio'n hyderus mewn ystod eang o gyd-destunau</li> <li>● rhoi sylw manwl i gyfraniadau eraill, drwy holi er mwyn derbyn syniadau a chyfrannu mewn modd sy'n ystyried safbwynt eraill</li> <li>● dangos ymwybyddiaeth gynyddol o ddilyniant drwy ddatblygu eu sgwrs yn bwrpasol</li> <li>● cadw diddordeb gwrandawyr drwy amrywio'u sgwrs at y diben gan ddefnyddio llais, goslef ac ystum yn ôl gofynion y cyd-destun</li> <li>● wrth fynegi barn, rhoi rhesymau i gefnogi'r farn honno</li> <li>● cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol ac yn dangos gafael weddol dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar</li> </ul>



## Cofnodi gwaith trafod mewn grŵp

### Enghraifft o daflen gofnodi dros gyfnod

Enw: Mair Jones

Blwyddyn: 5

DYDDIAD	NATUR Y DASG	TYSTIOL-AETH	NODIADAU	SUT I WELLA'R GWAITH
5 Ionawr 2001	Trafod beth sy'n digwydd nesaf mewn stori	arsylwi	<ul style="list-style-type: none"> <li>● cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol wrth ddisgrifio tŷ</li> <li>● mynegi barn gan ddefnyddio Yn fy marn i bydd... a Dw i'n cytuno hefo ...</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>● rhoi rhesymau wrth fynegi barn</li> </ul>
20 Chwefror 2001	Trafod llyfr	fideo	<ul style="list-style-type: none"> <li>● gwrando'n astud ar gyfraniadau eraill</li> <li>● siarad yn rhwydd a deal ladwy wrth drafod</li> <li>● ni fynegodd ei barn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>● mynegi barn</li> <li>● holi eraill</li> </ul>
15 Mawrth 2001	Trafod rhaglen deledu	arsylwi	<ul style="list-style-type: none"> <li>● defnyddio llawer o'r iaith newydd a gyflwynwyd e.e. cynhyrchiad apelgar, oriau brig etc.</li> <li>● cyflwyno gwybodaeth bellach am un o'r actorion</li> <li>● defnyddio ymadroddion a phatrymau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>● sylw i'r goslef wrth gyflwyno gwybodaeth</li> </ul>

Cofnodi gwaith trafod mewn grŵp

Enghraifft o daflen gofnodi dros gyfnod

Enw:

Blwyddyn:

DYDDIAD	NATUR Y DASG	TYSTIOL- AETH	NODIADAU	SUT I WELLA'R GWAITH

## 2.8 Hunanasesu

Dyma enghraifft o daflen hunanasesu gwaith trafod mewn grŵp

**Tasg trafod:** Dillad ysgol

**Nifer yn y grŵp:** 5

Wnes i ...

- gyflwyno gwybodaeth am fy ngwisg ysgol
- fynegi barn ynglyn â hi
- wrando ar gyfraniadau aelodau eraill y grŵp
- siarad Cymraeg yn gywir?

*Ticiwch*



Er mwyn gwella rhaid i mi

- 
- 

Enghraifft yn unig a geir uchod. Wrth lunio taflenni hunanasesu dylid:

- ystyried y Disgrifiadau Lefel
- sicrhau eu bod yn dasg-benodol
- sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'r gofynion e.e. ydyn nhw'n gwybod beth yw mynegi barn a rhoi rhesymau?
- darparu amser i'r disgyblion gwblhau eu taflenni hunanasesu yn arbennig er mwyn dweud sut i wella eu gwaith

Gellir annog disgyblion i ddefnyddio cyfarpar megis camera fideo i werthuso'u perfformiad ac i ystyried y ffordd ymlaen neu i arsylwi gwaith trafod grwpiau eraill.

## ASTUDIAETH 4

### Trafod llyfr gyda disgyblion Blwyddyn 3

**Llyfr:** *Parti'r Mochyn Bach*, Jeremy Strong  
Addasiad Urien William  
Darluniwyd gan Tony Morris  
Llyfrau Lloerig,  
Gwasg Gomer



#### Cam 1

#### Gwaith dosbarth cyfan

- Darllen y stori ar ei hyd i'r disgyblion, neu'n dameidiog i gyfateb i'r camau.
- Ymglyfarwyddo'r disgyblion â'r cymeriadau sy'n y llyfr. Sicrhau fod y disgyblion yn ynganu'r geiriau'n gywir. Gosod arddangosfa o luniau neu deganau meddal tebyg i'r cymeriadau i gynnal diddordeb y disgyblion a chyfoethogi'u hiaith.
- Adnabod ac ynganu'r geiriau yn *Parti'r Mochyn Bach*:
  - gŵydd
  - cwningen
  - hwyaden
  - dafad
  - ceiliog
  - llwynog
  - Mr a Mrs Mochyn
- Meddwl am enwau i'r cymeriadau a chyflythrennu e.e. *Heti Hwyaden*.
- Trafod a chynnig geiriau/ansoddeiriau i ddisgrifio'r anifeiliaid yn ôl: eu gwedd, eu symudiadau, eu sŵn. Arwain y disgyblion i ysgrifennu barddoniaeth syml a'u hannog i ddefnyddio cymariaethau ac idiomau sy'n enwi anifeiliaid.
- Trafod yr anifeiliaid yn unigol gan ystyried eu natur a'r hyn y maent yn ei fwyta gan ymglyfarwyddo'r disgyblion â'r geiriau "llysiuwyr", "anifeiliaid rheibus".
- Grwpiau yn trafod un anifail gan dynnu rhestr o ansoddeiriau i'w ddisgrifio.
- Athro/Athrawes yn arddangos y rhestr i'r dosbarth cyfan.

## Cam 2

- Chwyddo'r testun - tud. 5 a rhan o tud. 6 "Roedd y Mochyn Bach yn bedair blwydd oed..." hyd at 'Wyt ti'n siŵr dy fod am wahodd y llwynog?' gofynnodd Mrs Mochyn" cyn ei drafod gyda'r disgyblion.
- Trafod gyda'r dosbarth cyfan, "A ddylai'r llwynog gael dod i'r parti?"
- Sicrhau fod y disgyblion i gyd yn cymryd rhan yn y drafodaeth drwy ofyn cwestiynau agored. Derbyn rhai rhesymau o blaid ac yn erbyn caniatáu i'r llwynog ddod i'r parti. Bydd y disgyblion yn casglu nifer o resymau oddi wrth y naill ochr a'r llall wrth wneud gwaith grŵp wedyn.
- Trafodaeth ddosbarth - gall pob disgybl lwyddo i ofyn cwestiwn e.e.
  - Fedrwch chi enwi'r anifeiliaid a wahoddwyd i'r parti?
  - Fyddech chi'n hoffi mynd i'r parti? Pam?
  - Fyddech chi'n teimlo'n saff yn mynd i barti gyda llwynog?
  - Fyddech chi'n hapus neu'n anhapus?
  - Fyddwch chi'n gwahodd anifail i'ch parti chi weithiau?
  - Ydy hi'n iach cael anifail anwes yn y gegin pan fyddwch chi'n bwyta?
- Annog y disgyblion i ymateb trwy ddefnyddio:
  - Faswn i ...
  - Faswn i ddim ...



## Cam 3

- Chwyddo'r testun -tud 8. "Danfonodd..." hyd at "Ar-, ardderchog" a'i ddarllen gyda'r disgyblion.
- Defnyddio gwaith ysgrifennu'n sbardun i waith llafar.
- Disgyblion yn ysgrifennu gwahoddiad ar ran y Mochyn Bach, wedi'i gyfeirio at un o'r anifeiliaid yn nodi ei fod yn dymuno iddo/iddi ei ffonio gydag ateb. Gellir defnyddio'r cyfrifiadur neu bapur a phensil i lunio'r gwahoddiad.
- Disgyblion yn ffonio gan gymryd arnynt mai'r creadur yn ymateb i'r gwahoddiad ydynt.
- Eu hannog i ddynewared lleisiau'r anifeiliaid.
- Cyfarwyddo'r disgyblion i ddefnyddio cwestiynau megis:
  - Pwy arall sy'n dod i'r parti?
  - Ydy ... yn dod i'r parti?

Faint o'r gloch fydd y parti'n gorffen?  
Beth fyddwn ni'n gael i'w fwyta?

- Annog y sawl sy'n chwarae rhan y Mochyn Bach i ymateb:  
Sut wyt ti'n dod i'r parti?  
Wyt ti eisiau aros yma?

#### Cam 4

- Cyflwyno tud. 9 i'r disgyblion gan dynnu sylw at "blasus" a "champus" ac yna trafod geiriau sy'n debyg i'w gilydd.
- Gwaith grŵp - y disgyblion i lunio rhestrau o eiriau sy'n edrych/swnio'n debyg i'w gilydd ond sy'n wahanol o ran ystyr:  
e.e.  
llaeth/llaith                      cân/can                      sy'n/syn  
môr/mor                              tynn/tun                      garw/garw  
  
y disgyblion i lunio rhestrau o eiriau sy'n odli:  
hapus/siapus                      tew/blew                      oer/lloer                      gwich/gwych

- Defnyddio geiriaduron,thesawrws neu odliadur i gyflawni'r dasg.
- Adrodd yn ôl ar lafar i weddill y dosbarth gyda'r athro/athrawes yn cofnodi.

#### Cam 5

- Darllen tud. 11 "Y Llwynog..." hyd at "...chwerthin" gyda'r disgyblion a dangos y llun ar dud 10 iddynt gan ganolbwyntio ar y berfau.



- Y disgyblion a'r athro/athrawes yn trafod sut y mae'r llwynog yn teimlo wrth fynd i'r parti:

wedi cynhyrfu  
yn neidio i fyny ac i lawr  
yn clapian ei ddannedd  
yn gweiddi  
yn chwerthin

- Trafod mewn grwpiau - sôn am bartïon a sut y maen nhw'n teimlo. Ydyn nhw'n:

swil	hapus
ofnus	flinedig
flin	ddigywilydd
drist	afreolus
bryderus	anhapus
chwareus	

- Ychwanegu ansoddeiriau at y rhestr uchod.
- Creu llyfr dosbarth neu lyfr personol o luniau sy'n cyfateb i'r emosiynau uchod.
- Adrodd yn ôl gan sôn sut oedd aelodau'r grŵp yn teimlo.

## Cam 6

- Darllen tud 14-19 gan dynnu sylw at eirfa gyfarwydd.
- Trafod mewn grŵp - gêmiau parti sy'n gyfarwydd i'r disgyblion ac yna adrodd yn ôl.
- Yr athrawes/athro i roi cyfarwyddiadau gêm fuarth i blant neu ddawns werin a gofyn i'r disgyblion ei chwarae/dawnsio neu chwarae un o'r gêmiau sy'n y llyfr.
- "Beth am chwarae *Lladd yn y Tywyllwch?*" meddai'r Llwynog.  
gweithio fel grŵp i ystyried pa fath o gêm yw "*Lladd yn y Tywyllwch*".  
paratoi cyfarwyddiadau ar gyfer chwarae gêm a'u recordio ar dâp i eraill  
gael eu dilyn a'u chwarae.
- Trafod pa gêmiau buarth y maent yn eu chwarae yn yr ysgol. Adrodd yn ôl fesul grŵp a'u "perfformio"?  
e.e. *Faint o'r gloch Mr Blaidd?*  
*Llwynog Coch sy'n Cysgu...*
- Gosod tasg i grŵp, sef paratoi gêm i grŵp arall gan gyfarwyddo ar lafar a sichrau fod y grŵp arall yn gwrando ac yn dilyn y cyfarwyddiadau. Rhaid defnyddio'r gorchmynnol: *Ewch, Eisteddwch: Cydiwch, Gafaelwch, Trowch i'r dde/chwith* etc.

## Cam 7



- Gwaith Grŵp - llunio ymgom rhwng y llwynog a'r mochyn.
- Y disgyblion yn cael copi o'r llun ac yn rhannu yn ddau Grŵp A a B. Grŵp A fydd y Mochyn Bach a B fydd y llwynog. Byddant yn ystyried ac yn penderfynu beth sy'n mynd drwy feddwl y ddau greadur. Byddant yn adrodd yn ôl fel a ganlyn:

Mochyn Bach:	Roeddwn i'n eistedd ar lin y llwynog. Gallwn deimlo ei liniau blewog. Roeddwn i'n hoffi'r llwynog ond Roedd o'n gwasgu fy mreichiau...
--------------	---

- Beth ddigwyddodd nesaf? Pe na bai'r mochyn wedi mynd oddi ar lin y llwynog beth fyddai wedi digwydd nesaf? Trafod ac yna meddwl am ganol newydd i'r stori.



## Cam 8

- Ailddarllen y stori o'r dechrau hyd at ddiwedd tud. 21. Ymddengys fel pe bai'r stori'n gorffen yma. Rhaid dangos i'r disgyblion fod 7 tudalen ar ôl. Beth, yn eu barn hwy, fydd diwedd y stori?
- Rhannu'r disgyblion yn grwpiau i ystyried sut y byddent yn gorffen y stori. Gosod tasg ysgrifennu a dylunio 7 tudalen olaf y stori. Trafod diweddglo pob grŵp.
- Cynnig geirfa ar gyfer y drafodaeth er mwyn ysgogi holi ac ateb:

Dw i'n meddwl ... Dw i ddim yn meddwl ...

Beth wyt ti'n ei feddwl?

Efallai ...

Hwyrach ...

Pam?

Achos ...

Am fod ...

Mi fyddai'n well .../Fyddai'n well ...?

Wyt ti'n meddwl ...?

## Cam 9

- Trafodaeth /grŵp i benderfynu ar barti pen-blwydd delfrydol gan ystyried:
  - pwy?
  - ble?
  - math o fwyd
  - gêmau
  - anrhegion
  - gweithgareddau
  - teimladau wrth adrodd yr hanes ar lafar
- Penodi negesydd i adrodd profiad y grŵp i ddisgybl/grŵp arall.

## Cam 10

### Dadlau o blaid ac yn erbyn

- Darllen tud. 6. *"Cafodd y Mochyn Bach 'ffon dafl' gan y llwynog a dwedodd ei fam 'Mae ffon dafl yn beryglus.'"*
- Disgyblion yn paratoi dadl o blaid ac yn erbyn rhoi teganau "perygylus" i blant. e.e. bwa saeth, gwn sy'n saethu saethau.
- Ymestyn y drafodaeth i gael cystadleuaeth - y ddadl orau o blaid ac yn erbyn teganau peryglus. Annog y disgyblion i ddefnyddio geirfa megis: Dw i'n cytuno, Dw i'n anghytuno ac ati.

### Gweithgaredd

- Lluniwch gamau tebyg ar gyfer eu defnyddio gyda llyfr arall sy'n addas ar gyfer hybu llafaredd/trafod mewn grŵp gyda disgyblion Blwyddyn 3.



## ASTUDIAETH 5

### Trafod llyfr

**Llyfr:** *Dyfal Donc*, *Addasiad Emily Huws*, *Llyfrau Lloerig*

- Gellir gweithio gyda'r llyfr fel cyfanwaith neu gellir defnyddio rhannau penodol o'r testun yn sbardun i waith trafod grŵp.
- Awgrymir cadw'r cofnodion o'r sesiynau adrodd yn ôl ar gyfer trafodaethau pellach.
- Cyflwyniad - tynnu sylw'r disgyblion at y broliant i roi blas ar y llyfr iddynt.
- Cynnal trafodaeth gyffredinol ar anifeiliaid anwes i roi cyfle i'r disgyblion uniaethu â'r sefyllfa.

### Gwers 1

#### Nod:

- dysgu iaith dwyn perswâd
- cynnig safbwynt gan roi rheswm/rhesymau

### Cam 1

- Darllen tudalen 5

"Dad, gawn ni gi, os gwelwch chi'n dda?" Ond ei ateb oedd, "Ci? Na chewch! Chewch chi ddim."

"Ond pam?" holais. "Pam na chawn ni?"

Rhoddodd Dad y gorau i'w waith a dechrau rhestru rhesymau.

- Trafod gyda'r disgyblion: beth ydych chi'n feddwl yw rhesymau Dad?

### Cam 2

- Modelu rhesymau Dad yn erbyn cadw ci, h.y. tynnu sylw at y ffordd mae Dad yn dadlau yn erbyn cadw ci.
- Dangoswch dudalen 6 i'r disgyblion gan ddileu ymateb y ddau blentyn ac edrych yn fanwl ar y gystrawen.

### Cam 3

- Gweithgaredd grŵp

Trafod a llunio rhagor o rhesymau yn erbyn cadw ci gan ddilyn strwythur y gystrawen a enghreifftir ar dudalen 6 – un disgybl i gadw cofnod.

## Cam 4

- Adrodd yn ôl.
- Cofnodi'r ymdrechion ar y bwrdd gwyn/siart.
- Cydwerthuso'r ymdrechion gan barchu gwaith ei gilydd.

## Gwers 2

### Nod:

- cynnal dadl dros ac yn erbyn cadw ci

## Cam 1

- Modelu ymateb y ddau blentyn i safbwynt Dad.
- Edrych ar dudalennau 6 ac 16 yn eu cyfanrwydd.
- Darllen ymateb y disgyblion ac edrych ar strwythur y gystrawen.
- Enghreifftio ymateb i sbarduno ymateb.  
e.e. Safbwynt: "Mae cŵn yn colli blew dros bob man"  
Yr Ymateb: "Fe wnawn ni ei frwsio bob dydd."

## Cam 2



- Trafod mewn grŵp a llunio ymatebion i safbwynt Dad
- Un disgybl yn cofnodi.

## Cam 3

- Adrodd yn ôl.

## Cam 4

- Cynnal dadl dros ac yn erbyn cadw ci.
- Gwaith paratoi - bwrw golwg dros y syniadau a gofnodwyd eisoes.
- Rhannu'r disgyblion yn ddwy garfan – un i ymateb dros Dad a'r llall i ymateb dros y disgyblion.
- Tynnu sylw'r disgyblion at iaith i fynegi barn yn Astudiaeth 2.
- Dau grŵp yn cynnal dadl a gweddill y dosbarth yn bwrw pleidlais.
- Tapio'r ddadl i ddosbarth arall a gofyn iddynt fwrw pleidlais.



### Cam 5

- Chwarae rôl gan ddefnyddio iaith perswâd.
- Defnyddio'r canlynol yn symbyliad: **RYDAN NI EISIAU UN !**

Plis Mam?

**Plis!**

"Wel,"atebodd Mam,

"mae'n rhaid i chi ofyn i Dad." (gweler tudalen 17 ac 18)

"Tewch! .....na.....na.....na

.....na.....

**NA!**

- Dau ddisgybl yn chwarae rôl dau frawd/dwy chwaer/brawd a chwaer yn ceisio perswadio rhiant i brynu anifail anwes.

### Gwers 3

#### Nod:

- creu rhestr siopa i gwrdd ag anghenion ci trwy gyd-drafod
- cyd-drafod, dod i benderfyniad a rhoi rheswm

#### Cam 1


- Darllen tudalen 47 – cyfrifoldebau'r plant.
- Y cyflwyniad – y mae'r plant yn cymryd gofal dros y ci. Beth yw anghenion y ci?

#### Cam 2

- Gweithgaredd grŵp:  
cyd-drafod a chreu rhestr siopa i gwrdd ag anghenion y ci gan roi rhesymau dros eu dewis e.e. brws – i gadw'r ci yn lân.  
un aelod o'r grŵp i gadw cofnod ar ffurf grid.

#### Cam 3

- Adrodd yn ôl ar sail y grid.
- Cydwerthuso'r ymdrechion gan barchu gwaith ei gilydd.



## Gwers 4

### Nod:

- datblygu medrau sgwrsio'n ffurfiol a holi ac ateb


### Cam 1

- Darllen tudalennau 34 a 35.  
"Dyma ni'n troi i'r dudalen olaf un. A chefais hyd i'r geiriau roeddwn i'n chwilio amdanynt.  
'Manion ar Werth.'  
Roedd yno restrau hir o bethau roedd pobl eisiau eu gwerthu: cymysgwr sment a phram, tŷ gwydr a chot ffwr, dillad a fideos. Ond yn y golofn olaf roedd e'n dweud: 'Anifeiliaid Anwes'.

- Dangos yr hysbysebion ar dudalen 36 mewn print mawr neu ar uwch-daflunydd.

### Cam 2

- Trafod fformat yr hysbysebion, eu geiriad a'u cynnwys.  
Holi'r disgyblion:  
Beth arall ydych am ei wybod amdanynt?  
Sut y byddwn yn dod o hyd i'r wybodaeth?
- Paratoi sgwrs ffôn:  
cyd-lunio'r cwestiynau  
parchu confensiynau sgwrsio'n ffurfiol ar y ffôn  
cyfarch a chyflwyno  
gosod y sefyllfa a sefydlu pwrpas y sgwrs  
defnyddio "chi"  
sôn am anghenion y prynwr  
holi'n gwrtais  
ateb yn llawn– disgrifio'n fanwl, rhoi manylion  
gofyn am gyfeiriad  
cyfarwyddo  
diolch a ffarwelio'n briodol



### Cam 3

- Paratoi sgwrs ffôn:  
dewis anifail i'w brynu  
penderfynu'r hyn maent am ei wybod  
llunio cwestiynau ac atebion llawn a manwl  
parau i chwarae rôl - prynu a gwerthu anifail anwes

### Gweithgaredd

- Dewiswch lyfr addas. Lluniwch gamau gogyfer â'u defnyddio i ddatblygu medrau trafod mewn grŵp gyda sylw arbennig i iaith dwyn perswâd. Gellir ystyried broliant ar glawr y llyfr, catalog Cyngor Llyfrau Cymru neu ddeialogau mewn llyfrau eraill neu gylchgronau.
- Tynnwch restr o ymadroddion/eirfa iaith dwyn perswâd a fyddai eu hangen ar y disgyblion.



# DAI AR Y PISTE



**HEFYD AR Y FIDEO  
YMWELIAD A THEULU  
PANTYCELYN  
A  
HANES DAI AR Y TEIFI.  
AWR A HANNER HWYLIOG  
CF45D**

## ASTUDIAETH 6

### Trafod rhaglen deledu/ffilm

**Symbyliad:** Fideo: *Dai Jones ar y Piste*

**Nod:**

- gwranddo ar ystod ehangach o symbyliadau am gyfnod estynedig (mae yma sylwebaeth, deialog, cerdd a thrac sy'n cyfleu naws ac awyrgylch cefn gwlad)
- dangos gallu i wrando a chynnig sylwadau ar yr hyn a glywant gan holi cwestiynau
- gofyn ac ateb cwestiynau yn drefnus, mynegi barn a chynnig eglurhad
- derbyn a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau wrth i'r athro/athrawes ganolbwyntio ar rannau penodol o'r rhaglen i ddibenion arbennig
- ailgyflwyno hanesyn gan gydweithio fel grŵp ac ehangu eu defnydd o gymariaethau, priod-ddulliau a dywediadau
- cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r iaith a'r acenion a glywant

**Anoddau:** Fideo: *Dai ar y Piste* (ar gael mewn siopau llyfrau Cymraeg)

#### Cam 1

- Cyflwyniad:

Gwyllo'r fideo

#### Cam 2

- Holi'r disgyblion - cynnal trafodaeth ddosbarth cyfan:

Wnaethoch chi fwynhau'r fideo? Pam?

Pa ran oedd yr orau? Pam?

Dywedwch beth ddigwyddodd yn ystod y ffilm.

Soniwch am gymeriadau'r ffilm e.e. Dai/y dyn yn y cwch/dyn y cwrwgl.

Sut ddiwrnod gafodd Dai Jones?

Beth fuasech chi wedi ei wneud pe baech chi yn yr un sefyllfa?

Rhestrwch beth welsoch chi?/beth glywsoch chi?

Sut oeddech chi'n teimlo wrth wyllo'r ffilm?

Oedd e'n ddiddorol? Ym mha ffordd?

Oes rhywbeth tebyg wedi digwydd i chi?

### Cam 3

- Cyflwyno geirfa anghyfarwydd:  
Rhwyfau, cwrwgl, cwch rwber, siaced achub, pysgodfa, rhaedr, eog, melin, aelodaeth, Teifi, Alltcafau, trwydded.

### Cam 4

- Cynnal trafodaethau grŵp

Dylid gwyllo'r fideo eto gan ganolbwyntio ar un agwedd ar y tro. Gan ddibynnu ar oed/aeddfedrwydd y disgyblion, efallai y bydd modd penderfynu ar agwedd benodol i grwpiau gwahanol - gweler Cam 5.

### Cam 5

- Rhai pynciau trafod:

Diogelwch ar yr afon  
Gwyliau da.  
Cerdd - *Cwm Alltcafau*  
Hobiau/Diddordebau  
Dai Jones

- Wrth ddewis y pwnc/pynciau trafod, mae'n bwysig ailddangos, oedi a weindio'r tîp fideo yn ôl/ymlaen yn ôl y gofyn. Pwysleisir mai canllawiau yn unig yw'r cwestiynau/pwyntiau trafod a gynigir isod; gellir hepgor/ychwanegu rhai eraill yn unol â gallu'r disgyblion.

### Tasg 1

#### Diogelwch ar yr afon

- Gwylwch y fideo ac ystyriwch y canlynol:

Beth oedd y peth cyntaf a ddaeth i'ch meddwl ar ôl gwyllo'r fideo?  
Sut oedd Dai yn teimlo?  
A oedd modd gwella'r daith?  
A fyddech chi wedi mynd yn y cwch? Gyda phwy hoffech chi deithio a pham?  
Disgrifiwch daith dda i blant ar afon neu yn yr ardal a welsoch ar y fideo.  
Cytunwch fel grŵp am bum peth da i'w gwneud.

## Tasg 2

### Gwyliau da

- Gwylwch y fideo gan nodi ac ystyried y pethau sy'n digwydd:

Cytunwch fel grŵp sut allech chi wella'r daith ar yr afon.  
Rhestrwch bum gweithgaredd diddorol i'w gwneud ar wyliau. Penderfynwch pa un yw'r gorau ar y rhestr. Dywedwch pam.  
Sut byddech chi'n perswadio rhywun i fynd ar wyliau i'r ardal?  
Beth sy'n gwneud gwyliau cofiadwy?  
Beth fyddech chi'n eu pacio ar gyfer gwyliau yn yr ardal?  
Dychmygwch eich bod wedi dychwelyd o wyliau ardderchog neu ofnadwy.  
Cyflwynwch hanes y gwyliau i'r grwpiau eraill.

## Tasg 3

**Cerdd** - *Cwm Alltcaf*an T. Llew Jones (mae darlenniad ar y fideo)

- Gwrandewch yn ofalus ar T. Llew Jones yn adrodd y gerdd.

Sut le yw Cwm Alltcaf? Disgrifiwch.  
Pam ysgrifennodd T. Llew Jones y gerdd hon yn eich barn chi?  
Dewiswch eich hoff linellau. Dyfynnwch a chytunwch fel grŵp ar eich dewis.  
Ydy T. Llew Jones yn fardd da yn eich tyb chi? Pam?  
Pa feirdd eraill rydych chi'n eu hoffi sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg neu'r Saesneg?  
Beth sy'n gwneud cerdd dda?

## Tasg 4

### Hobiau/Diddordebau

- Ystyriwch y canlynol:

Beth oedd diddordebau'r cymeriadau ar y fideo?  
Pa hobi fyddai'r gorau i blant fel chi?  
Pa hobi fyddai'r gorau ar gyfer plant y dre/plant y wlad? Rhowch resymau am eich dewis.  
Ydych chi'n meddwl fod pysgota yn hobi da?  
Beth ydy'ch barn chi am hela anifeiliaid?

## Tasg 5

### Dai Jones

- Ystyriwch y canlynol:

Sut oedd Dai Jones yn teimlo wrth fentro i lawr yr afon Teifi mewn cwch rwber?

Beth ddigwyddodd yn ystod y wers a gafodd gan Bernard Thomas?

Sut fydddech chi wedi ymateb yn yr un sefyllfa?

Ydych chi wedi cael profiad chwithig erioed?

Oedd Dai Jones yn mwynhau?

Sut un yw Dai Jones?

Sut mae cymeriadau'r ffilm yn siarad?

Nodwch rhai dywediadau.

### Gweithgaredd

- Rhannwch yn grwpiau. Dewiswch un o'r tasgau uchod a lluniwch daflen hunanasesu i gyd-fynd â hi.
- Dewiswch fideo arall ar gyfer cymhwyso'r syniadau uchod.

## ASTUDIAETH 7

### Trafod pwnc llosg

#### Nod:

- Meithrin gallu plant i:


holi ei gilydd  
ymateb i symbyliad llenyddol drwy uniaethu â'r profiadau ynddo.

#### Symbyliad:

- Cerdd Gwyn Thomas: *Bwli*
- Stori Mair Wynn Hughes: *Ragsi Ragsan*

#### Adnoddau:

- Copïau o'r symbyliadau - un i bob grŵp trafod
- Siart o batrymau iaith i gynorthwyo'r disgyblion i lunio rheolau i ddelio â bwlio
- Cardiau geiriau/ymadroddion perthnasol
- Cardiau'n cynnwys geiriau holi perthnasol
- Paratoi ieithyddol - gweler Astudiaeth 2



#### Bwli

Yn ein dosbarth ni  
Mae yna fwli;  
Mae o'n fawr, yn heglog,  
Ac yn gryfach na fi.

Mae'n gas gen i o  
Achos fe gaf fi fy nghuro,  
A'm ffrindiau i hefyd  
Gan y mwnci-mul-llo.

Mi fydda i'n breuddwydio  
'Mod i'n gryfach na fo  
Ac yn rhoi iddo fo sgwrfa  
Nes y bydd o'n drybowndio.

Rhoi un yn ei gropa  
Nes y bydd o yn 'rwythnos nesa  
A'i daflu o i afon  
A'i llond hi o birana.

Ei sodro fo am unwaith,  
Ei stido fo'n berffaith  
Nes y bydd yr hen law  
Yn y baw am ei gamwaith.

Ond be ydw i haws â breuddwydio  
A finnau, wrth gwffio,  
Yn cael sgeg gan y sgodyn  
A,m gwir gwilyddio.

Fy nghywilyddio; ond eto  
Mae gen i ffordd i'w setlo,  
Mae gen i fy nghynllun,  
Achos rydw i'n gallach nag o.

Mi helia i bob un  
Gafodd gweir gan y dyn  
Ac fe gaiff y fath gosfa  
Nes na fydd o byth yr un un.

## Nodyn i'r hyfforddwr/aig

Gofynnwch i fynychwyr y cwrs lunio rhestr o eirfa/ymadroddion penodol ar gyfer y dasg.

### ***Bwli*, Gwyn Thomas**

- Cyd-ddarllen y gerdd gan gynnig cyfle i'r disgyblion holi am eiriau anodd neu anghyfarwydd a dyfalu ystyr, e.e. heglog.
- Darllen y gerdd *Bwli* i'r disgyblion yn ei chyfanrwydd.
- Arwain trafodaeth dosbarth cyfan wrth ailddarllen gan ennyn ymateb y plant, eu holi er sicrhau eu dealltwriaeth ac egluro, os bydd rhaid, unrhyw gymhlethdodau. Dyma gwestiynau y gellir eu defnyddio:

Fwynheuoeh chi'r gerdd? Pam?  
Pa ddisgrifiad roeddech chi'n hoffi?  
Pam mae'r plentyn yn y gerdd yn casáu'r bwli?  
Am beth mae'r plentyn yn breuddwydio?  
Sut mae'r plentyn yn bwriadu setlo'r bwli?  
Pa fath o fwli yw bwli'r gerdd?  
Beth mae'n ei wneud?

- Cyflwyno'r testunau trafod (ar uwch-daflunydd neu fwrdd du/gwyn) gan sicrhau bod pawb yn eu deall. Cyfarwyddo'r disgyblion: "Trafodwch y testunau canlynol gan dreulio tua 3 munud ar bob un":

Gwahanol fathau o fwlis gan eu cymharu â bwli'r gerdd;  
Targed y bwli - pa fath o berson yw e/hi?  
Pa mor hawdd yw hi i drafod problem bwlio yn yr ysgol?  
Eich profiad chi o fwlio  
Nodweddion mwyaf diddorol y gerdd yn eich barn chi  
Pa enwau y gellid eu galw ar y bwli?

- **Canllawiau**

Ffurfio hyd at bedwar o grwpiau.  
Darparu un copi o'r gerdd, un set o'r cardiau geiriau/ymadroddion perthnasol ac un set o'r cardiau siarad/holi i bob grŵp trafod gan eu hannog i'w defnyddio.  
Dechrau'r gweithgaredd gan bwysleisio bod angen cyfyngu'r trafod i dair munud y testun.  
Atgoffa'r disgyblion o gonfensiynau trafod mewn grŵp a phatrymau allweddol trafod (gweler Astudiaethau 2 a 3)  
Symud o grŵp i grŵp: gwrandao ar gyfraniadau'r disgyblion a chynnig anogaeth ac arweiniad.

Cynnal sesiwn adrodd yn ôl: gwranddo ar gyfraniadau'r grwpiau a chrynhoi prif bwyntiau'r drafodaeth.

### **Ragsi Ragsan, Mair Wynn Hughes (1998)**

- Trafod mewn grwpiau, ond y tro hwn daw'r ysgogiad o'r ffaith fod ganddyn nhw ddarlun arall (darlun y stori) o fwllis.

#### **Gweithgareddau Ilafar**

- Chwarae rôl e.e. athrawes a dau ddisgybl yn adrodd am fwllio neu sefyllfa debyg i stori *Ragsi Ragsan*
- Tasgau trafod pellach e.e. llunio rheolau ysgol i ddelio â bwllio a/neu dynnu rhestr dulliau cosbi'r bwll
- Adrodd yn ôl

- Adfyfrio ar y gwaith trafod trwy holi'r disgyblion:

Gawsoch chi gyfle i gyfrannu i'r sgwrs?

Oedd rhywun yn y grŵp yn siarad gormod?

Oedd eich grŵp trafod yn llwyddiannus? Beth oedd yn ei wneud yn llwyddiannus?

Oedd yr amser gawsoch chi i drafod yn eich grŵp yn rhy hir/rhy fyr/yn ddigon?

Ydych chi'n deall mwy am y pwnc ar ôl ei drafod nag oeddech cynt?

#### **Gweithgaredd**

- Cymhwyswch y canllawiau uchod gan eu defnyddio gyda llyfr a cherdd arall.
- Lluniwch restr o eirfa/ymadroddion trafod y bydd eu hangen ar y disgyblion.



## LLYFRYDDIAETH

ACCAC, *Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000)

Evans E J, *O Sgwrsio i Drafod* (Uned Iaith Genedlaethol Cymru CBAC 1994)

NCC, *Assessing Talk in Key Stages 1 and 2* (rhan o'r National Oracy Project, 1990)

# *Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg*

*Gellir prynu copiâu o'r cyfrolau hyn trwy gysylltu â*

*Siop Lyfrau CBAC*

*245 Rhodfa'r Gorllewin*

*Caerdydd CF5 2YX*

*☎ 029 2026 5063 / 029 2026 5112*

*Ffacs 029 2026 5014*

